

Grŵp Cyswllt Swyddogion y Trydydd Sector

1. Cefndir:

- 1.1. Mae "Grŵp cyswllt Swyddogion y Trydydd Sector" yn weithgor swyddogion ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r Trydydd Sector a gynrychiolir gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam. Ceisia'r grŵp gynnal a chadw golwg ar ddatblygiad perthynas weithio gref rhwng y Trydydd Sector a'r Cyngor er budd pobl Wrecsam.

2. Amcan:

- 2.1. Annog Trydydd Sector cynaliadwy a deinamig er mwyn cefnogi Cyngor Wrecsam i ddarparu ei amcanion yn effeithiol.

3. Aelodaeth:

- 3.1. Bydd aelodaeth y grŵp yn cynnwys:

Aelod o Gyngor Wrecsam
Prif Swyddog Arweiniol Trydydd Sector Cyngor Wrecsam
Swyddog Cyswllt Trydydd Sector Cyngor Wrecsam
Prif Swyddog Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
Uwch Swyddog AVOW neu fudiad Trydydd Sector

- 3.2. Gall swyddogion ychwanegol o bob mudiad gymryd rhan yn y cyfarfodydd a darparu adroddiadau ac / neu gefnogi'r aelodau.
- 3.3. Gall y grŵp wahodd pobl i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd pan fydd hyn o gymorth i'r materion dan ystyriaeth.

4. Swyddogaeth:

- 4.1. Hyrwyddo datblygiad partneriaeth ymarferol effeithiol rhwng Cyngor Wrecsam a'r Trydydd Sector.
- 4.2. Sefydlu gweithgorau lle bo'n briodol er mwyn cyflawni gwaith arbennig sy'n berthnasol i'r Cynllun Gweithredu.
- 4.3. Darparu fforwm lle gellir trafod materion o ddiddordeb i bawb er mwyn ystyried enghreifftiau o arfer da a'u gweithredu.
- 4.4. Dechrau'r broses cyfryngdod pan fydd y Cod Ymarfer Ariannu a Monitro'n cael ei dorri, neu pan fydd materion o bryder yn codi rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector.

5. Gweithrediad:

- 5.1 Bydd Grŵp Cyswllt Swyddogion y Trydydd Sector yn cyfarfod bob chwarter o leiaf pedair gwaith y flwyddyn ar ddyddiadau a gytunir arnynt rhwng yr aelodau.
- 5.2. Bob yn ail daw Cadeirydd y grŵp o CBSW a chynrychiolydd o'r Trydydd Sector yn flynyddol.
- 5.3. Cytunir ar yr agenda gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a'i gylchredeg o leiaf wythnos cyn dyddiad y cyfarfod.
- 5.4. Gwasanaethir y cyfarfodydd gan Gyngor Wrecsam a bydd yr agenda a'r cofnodion ar gael i'r cyhoedd ar gais.

- 5.5. Bydd y Grŵp Cyswllt yn cytuno ar y rhaglen waith ar ffurf Cynllun Gweithredu.
- 5.6. Adolygir y Cynllun Gweithredu yn flynyddol fan bellach a bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu cyhoeddi yn unol â hyn.
- 5.7. Pan fydd angen gwneud penderfyniadau pwysig bydd pob aelod yn defnyddio'r broses briodol a ddefnyddir yn eu cymdeithas/sefydliad.
- 5.8. Gall y grŵp sefydlu is-grwpiau fel bo angen ar gyfer gwaith neu swyddogaethau penodol.
- 5.9. Bydd Swyddog Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yn cael ei gefnogi gan swyddogion y Cyngor ac AVOW.
- 5.10. Bydd pob partner yn cyfrannu amser eu staff neu wirfoddolwyr i'r broses (h.y. mynychu cyfarfodydd a gwaith cysylltiedig). Tybir y bydd pob partner yn talu'r costau sydd ynghlwm ar wahân.
- 5.11. Bydd yr holl bartneriaeth yn cyfrannu at gostau unrhyw waith, digwyddiadau, cyhoeddiadau, ymgynghoriadau ac ati fel y cytunir arnynt gan y Grŵp.
- 5.12. Os yw pawb yn cytuno gall y cylch gorchwyl hwn newid.
- 5.13. Adolygir y Grŵp Cyswllt yn flynyddol.
- 5.14. Gall y ddau bartner ddod â'r Grŵp Cyswllt i ben drwy roi rhybudd o dri mis.